# PRIF NEGESEUON YR ASESIAD LLESIANT

## POBLOGAETH AC IAITH

**Rhagwelir mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol** sy'n golygu fod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.

Ystyrir Gwynedd yn gadarnle i'r Gymraeg ond gwelir **gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.** Mae cymunedau Gwynedd yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

## AMGYLCHEDDOL

**Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Gwynedd yn adnodd pwysig.** Mae arfordir, llynoedd ac afonydd, mynyddoedd a chorsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

**Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant yng Ngwynedd.** Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg llifogydd uchel, tywydd eithriadol a thir lithriadau a rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.

**Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio.** Yng Ngwynedd ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.

Mae **cynnal dyfodol werdd yn flaenoriaeth i gymunedau Gwynedd**. Mae sgyrsiau efo trigolion wedi amlygu'r awch am ardaloedd eco-gyfeillgar sy'n gwneud y mwyaf o'i hadnoddau naturiol.

## CYMDEITHASOL

**Mae pryder am lefel ordewdra ymysg plant 4-5 oed**, a Gwynedd sydd â'r canran uchaf o holl siroedd rhanbarth Gogledd Cymru. Mae tystiolaeth o Loegr a'r Alban yn awgrymu fod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.

**Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hir-dymor ar iechyd y boblogaeth.** Mae hyn yn cynnwys effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid-Hir) a gwaethygu nifer o anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.

**Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad.** Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei fod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac yn debygol o gael effaith waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn

**Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r sir yn ôl trigolion Gwynedd.** Amlygwyd hyn ym mharodrwydd cymunedau i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.

**Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r sir**. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

## ECONOMAIDD

**Rhagwelir newidiadau yn sectorau gwaith ac i batrwm gwaith i'r dyfodol.** Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn  galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae **cyflogau yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn is na Gwynedd a Chymru gyfan.** Roedd sicrhau swyddi gwerth uchel yn flaenoriaeth i gymunedau a thrigolion y sir.

**Gwynedd sydd ag un o'r canranau uchaf yng Nghymru o dlodi tanwydd.** Roedd ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod be mae costau byw o bob math yn codi.

**Mae prisiau a fforddadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y sir** ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd.

**Pryder arall sydd wedi ei amlygu gan gymunedau yw'r sefyllfa ail dai / tai haf.** Un dangosydd yw'r cynnydd mewn 'troseddau casineb' sydd wedi ei adrodd gan yr Heddlu.

**Mae twristiaeth yn cyfrannu at economi Gwynedd ac yn sector gwaith pwysig, ond hefyd yn her ychwanegol i wasanaethau lleol a byd natur.** Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar y sector llety a bwyd y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.

**Mae darpariaeth gofal plant yn Bwysig i economi Gwynedd**. Mae diffyg darpariaeth cynaliadwy yn effeithio cymunedau yn Ne'r sir.

## DIWYLLIANNOL

**Mae'r amgylchedd naturiol yn addnodd holl bwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd,** gan eu bod yn galluogi trigolion aros yn actif.

**Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Gwynedd.** Mae teimlad fod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn golygu fod pobl ifanc y fro yn llai awyddus i aros yn y sir

**Mae'n anodd asesu effaith Covid-19 ar ddigwyddiadau diwylliannol a celfyddydol.** Mae'n fwlch data sydd angen sylw.

**Mae Safle Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfle i fagu balchder mewn bro a hanes, ond mae angen bod yn wyliadwrus o'i effaith ar dwristiaeth a chymunedau lleol.**

